# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

## Y Newyddion Diweddaraf

Gorffennaf 2018

**Helo.....**

Rydyn ni wedi bod yn brysur yng nghronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen dros y misoedd diwethaf. Mae ein gwaith i ddychwelyd y cronfeydd i ddefnydd yn mynd yn dda.
Yn y cylchlythyr hwn, mae ychydig o fanylion am y gwaith a wnaed ac am y gwaith sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf. Gobeithio y bydd y wybodaeth o ddefnydd i chi.



Arbenigwyr yn trwsio'r sylfaen gerrig ar wely'r gronfa

### Y sylfaen gerrig

Mae cronfa ddŵr Llanisien bellach yn wag, sy'n golygu ein bod ni wedi bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith i drwsio'r sylfaen gerrig. Mae rhannau o'r sylfaen mewn cyflwr gwael, ac mae'r llystyfiant wedi malu'r cerrig mewn mannau.



Arbenigwyr yn trwsio'r sylfaen gerrig ar wely'r gronfa

Mae ein contractwyr arbenigol wedi bod yn gweithio'u ffordd o amgylch y gronfa gan drwsio'r sylfaen, gan ailddefnyddio'r cerrig gwreiddiol ac ailgylchu cerrig o rannau eraill o'r gronfa lle bo modd. Mae'r gwaith wedi dod yn ei flaen yn gynt na'r disgwyl hyd yn hyn, ac mae'r arbenigwyr yn gwneud cynnydd da.

### Uwchraddio tŵr y falfiau

Yn rhan o'n gwaith i adfer y cronfeydd i ddefnydd ers iddyn nhw ddod i'n meddiant, rydyn ni'n uwchraddio


Mynedfa tŵr y falfiau

tŵr y falfiau, sy'n hen iawn ac wedi dechrau dadfeilio.

Mae'r tŵr yn strwythur trawiadol ac rydyn ni wedi cyfnewid yr hen falfiau am rai newydd, modern.


Hen falfiau o dŵr y falfiau

Dŵr Cymru
Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 dwrcymru.com

# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

## Y Newyddion Diweddaraf

Gorffennaf 2018

### Daliwr pysgod

Yn ystod ein gwaith i atgyweirio rhai o'r pibellau sy'n mynd i mewn ac allan o'r gronfa, ffeindiwyd "daliwr pysgod" hen iawn. Blynyddoedd mawr yn ôl, byddai'r ddyfais hon wedi cael ei defnyddio fel rhwystr i atal y pysgod rhag mynd i lawr y bibell sy'n arwain allan o'r gronfa.



Daliwr pysgod

Mae'r dyfeisiau modern yn llai, ac yn fwy cynaliadwy, ac maent yn defnyddio system hidlo i ddal unrhyw bysgod neu frogaod sy'n ffeindio'u ffordd i'r bibell.



Gwyddau Canada ar wely'r gronfa

### Ecoleg

Nawr bod y gronfa'n wag, mae yna gamau amgylcheddol newydd y mae angen eu cymryd i amddiffyn bywyd gwyllt yr ardal. Er enghraifft, mae Nadredd Braith yn hoffi cuddio yn y creigiau rhydd ym masn y gronfa, ac mae haid o Wyddau Canada'n ymweld â'r safle'n gyson i bori ar y llystyfiant.

Rydyn ni'n gofalu i leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'n gwaith a allai effeithio ar y bywyd gwyllt yma.



Mae Nadredd Braith yn hoffi cuddio yn y creigiau ym masn y gronfa

### Cyfleusterau'r dyfodol

Wrth weithio i adfer y cronfeydd, rydyn ni'n brysur hefyd yn penderfynu pa gyfleusterau y gallwn eu cynnig yn y dyfodol.

Rydyn ni'n croesawu eich safbwyntiau, ac am glywed pa gyfleusterau rydych chi am eu gweld yn y dyfodol. Os oes unrhyw syniadau, cwestiynau neu bryderon gennych, cysylltwch â Megan neu Gwyn ar 01443 452452 neu e-bostiwch lisvaneandllanishen@dwrcymru.com .



Cronfa ddŵr Llanisien, Mehefin 2018